**Datganiad o Reswm**

**Y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig arfaethedig - Ffordd Fynediad Rest Bay, Porthcawl.**

Y cynnig yw dirymu'r cyfyngiadau clirffordd (dim stopio) 24 awr presennol a'u disodli gyda Gorchymyn Rheoleiddio Traffig newydd ar gyfer y cyfyngiadau parcio "Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar unrhyw adeg".

Mae gofyniad cyfreithiol y glirffordd bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i osod arwyddion clirffordd yn unig, a gall hyn beri dryswch i yrwyr. Fodd bynnag, bydd y cyfyngiadau diwygiedig yn cael eu hategu gan linellau melyn a fydd yn rhoi eglurder i'r holl ddefnyddwyr ffyrdd o'r cyfyngiadau sydd ar waith.

Hefyd, cynigir disodli'r cyfyngiad presennol "Deiliaid Bathodynnau Anabl yn Unig" gyda chyfyngiad "Deiliaid Bathodynnau Anabl yn Unig, 4 awr, Dim dychwelyd o fewn 2 awr”.

Mae'r ddarpariaeth anghyfyngedig bresennol yn caniatáu i gerbydau feddiannu'r llefydd parcio am gyfnodau estynedig, gan gyfyngu ar argaeledd i ddefnyddwyr eraill. Bydd cyflwyno cyfyngiad amser yn cynyddu trosiant ac yn gwella mynediad i fwy o ddeiliaid bathodynnau anabl.

Ystyrir ei bod yn briodol gwneud y Gorchymyn a fydd yn cyflwyno’r cyfyngiadau parcio newydd am y rhesymau a nodir yn Adrannau 1 (a), (c), (e) ac (f) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sydd fel a ganlyn:

(a) osgoi perygl i bobl neu drafnidiaeth arall sy’n defnyddio’r ffordd neu unrhyw ffordd arall neu i atal y tebygolrwydd y bydd unrhyw berygl o’r fath yn digwydd.
(c) hwyluso teithio ar y ffordd neu unrhyw ffordd arall i unrhyw ddosbarthiad o draffig (gan gynnwys cerddwyr)
(f) cynnal neu wella amwynderau’r ardal y mae’r ffordd yn mynd drwyddi,

Wrth benderfynu a ddylid gwneud Gorchymyn i ddiwygio'r cyfyngiadau parcio presennol ar Ffordd Fynediad Rest Bay, Porthcawl, mae'n ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r materion a nodir yn adran 122 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae adran 122(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor arfer y swyddogaethau a roddwyd iddo gan Ddeddf 1984 (i'r graddau y bo'n ymarferol o ystyried y materion a bennir yn adran 122(2)) er mwyn sicrhau symudiad cyflym, cyfleus a diogel traffig cerbydau a thraffig arall (gan gynnwys cerddwyr), a darparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar ac oddi ar y briffordd.

Y materion y mae’n rhaid i’r Cyngor roi sylw iddynt yn adran 122 (2) yw:

1. Dymunoldeb sicrhau a chynnal mynediad rhesymol i safleoedd;

2. Yr effaith ar amwynderau unrhyw ardal yr effeithir arni a phwysigrwydd rheoleiddio a chyfyngu ar ddefnydd cerbydau masnachol trwm o ffyrdd er mwyn cadw neu wella amwynderau’r ardaloedd y mae’r ffordd yn mynd trwyddynt;

3. Y strategaeth ansawdd aer a baratowyd dan adran 80 Deddf Diogelu’r Amgylchedd 1995;

4. Pwysigrwydd hwyluso teithio i gerbydau gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau diogelwch a chyfleustra’r rhai sy’n defnyddio neu’n dymuno defnyddio cerbydau o’r fath;

5. Unrhyw faterion eraill sy’n berthnasol ym marn y Cyngor.

Ar ôl ystyried y ddyletswydd yn Adran 122, ystyrir ei bod yn briodol diwygio’r cyfyngiadau parcio cyfredol ar Ffordd Fynediad Rest Bay.

Dangosir y cynllun ar y 2 lun sydd â'r cyfeirnod SL.01.26.
Mae’r cynllun yn cael ei ariannu gan yr Adran Gwasanaethau Parcio.